# GALAR GAN,

ER COFFADWRIAETH AM FYWYD A MARWOLAETH

# ELIZABETH DAFIES,

*GWRAIG REES DAFIES O ABERHONDDU,*

'Rhon a fu farw 27 o Fai, 1825,

YN 35 FLWYDDYN O'I HOED;

## *GANDDO EF EI HUN.*

1 DUW trugarog, hollalluog,
  Mor ardderchog wyt erio'd;
Mae dy allu sy'n gweithredi,
  'N peri synnu tan y rhod:
Y neb a fynnu a dderchafu,
  Hefyd darostyngi ni;
'Does neb mewn urddas all dy luddias,
  Yn y 'rhyn fwriadaist ti.

2 Cyson droion maith rhagluniaeth,
  'Nol dy arfaeth sydd yn myn'd;
I ddwyn o bell rai i'w cyssylltu,
  A gwahanu llawer *ffrind*:
'Nol cael rhoddion grasol cysson,
  *Ffrindiau* ffyddlon yn y byd;
Colli rheini cael fy siomi,
  Neb ond Iesu 'run o hyd.

3 'Rwyf fi leni tan alarnad,
  O waith y cennad, angau du;
Ddygodd gynes fwyn gymmares,
  Priod o fy mynwes i:
Dynes ddoniol, ddoeth rinweddol,
  Da a duwiol ddydd a nos;
Beth bynnag archau ei phriod iddi.
  Byth nid oedd yn tynu'n gro's.

4 Geneth ddiwar, lwybredd hawddgar,
  Yn ei hieuengctyd ydoedd hi;
Hynod enwog forwyn gyflog,
  Mewn ardderchog barch a bri:
Addfwyn ffyddlon gyda dynion,
  Di ymryson oedd erio'd;
Mae 'rholl gym'dogaeth helaeth heddyw,
  Yn manegu iddi glod,

5 Chwe o flwyddi, cofia'r cyfri,
Ce's ei chwmni gan fy Nuw;
I genhedlu tri o feibion,
Un o rhain sy nawr yn fyw:
Claddwyd Dafydd bach yn faban,
Dwy flwydd gyfan aeth o'i bla'n;
Trwy Grist yn gymwys i'r Baradwys,
I seinio yn ddiorphwys gan.
6 Ar y drydydd dydd-ar-hugain,
O Fai diweddaf, dyma'r dydd;
Dygwyd hi i wewyr esgor,
Cafodd nerth i dd'od yn rhydd:
Wedi ei dodi yn y gwelu,
Pawb yn llawenychu'n llon;
Nes daeth saith-ar-hugain oriau,
Trawodd angeu tan ei bron.
7 Yn ei harffed y dechreuodd.
Angeu weithiodd yn y bla'n;
Er meddygon a *scil* dynion,
Nes ei llwyr orchfygu'n lan:
Nid wy'n beio ar ail bethau,
Fel rwi'n clywed geiriau rhai;
Duw a'i tynnodd atto i hunan,
I Gaersalem i'w fwynhau.
8 Hi a ddywedau ngwyneb angeu;
A finnau'n wylo'r dagreu'n llun,
*Cyfaill ffyddlon yn yr afon,*
*Yw'r gwr fu ar Galfaria fryn;*
*Craig yn angeu, balm i'm clwyfau,*
*'R meddyg goreu i'm iachâu;*
*Yn ei gôl mi ehedaf adref,*
*Uwch gofydiau poen a gwae.*
9 *Er fod cysur byd yn pallu,*
*Heddyw'n colli tan yr haul;*
*Mae fy enaid yn ymddiried,*
*I ffyddlondeb Adda'r ail:*
*'Rhwn sy a chariad yn ei waelod,*
*A'i gyfammod heddyw'r un;*
*O! na ddeuau mhriod Iesu,*
*I fy nhynnu atto ei hun.*
10 Gofalwch weithian am y baban,
Sydd yn gruddfan heb ei fam;
Chwiliwch am ryw fammaeth etto,
Byth na wnelo iddo gam;

Cododd gwraig oedd yno'n union,
  Y baban tirion yn ei chôl;
Saith niwyrnod cadd ei gadw,
  Cyn ei alw ar ei hôl.
11 Hi roi ei llaw i bawb oedd yno,
  Gan *ffarwelio*'n dawel iawn;
Ac arwyddion ar ei hwyneb,
  Ei bod yn meddi'r undeb llawn:
Undeb ddaliodd tan y ddyrnod,
  Er rhoi 'chorph i waelod bedd;
Undeb sydd yn para heddyw,
  Yn ei rîn yngwlad yr hêdd.
12 Mi ddychymygwn y canfyddwn,
  Pan yr aeth o'r corph i ma's;
Fod angelion yn ei chilchynu,
  O rifedi gwellt y maes:
I'w dwyn adre i blith y perlau,
  I drigfanau'r hyfryd wlad;
I foli'r tri yn un tragywyddol,
  Am rinweddol werth y gwa'd.
13 Er fy mod yn hyfryd dawel,
  Am ei chyflwr dedwydd hi;
Etto hiraeth sy'n fy mynwes,
  Am ei hoff gymdeithas gu;
Pan y delwy i mewn i'm teulu,
  Hynny'n adnewyddu nghroes;
Gwel'd yn eisiau'r gwrthrych goreu,
  Welais yma yn fy oes.
14 Nid oedd dim a feddai'r ddaear,
  All'sau roi'r fath alar llym;
A cholli ngymmar serchog hawddgar,
  Oedd mor ymgeleddgar i'm:
Yn gwarchad gartref, trefnu'r dodre',
  Ei phriod foddie yn ddi fai;
Diwyd 'nwastad gydai galwad,
  Nid oes neb a ddywed lai,
15 Pedair blynedd oedd y dyddiau,
  Y bu o fewn i furiau'r PLOW;
Yn dal perthynas gynes addas,
  Megis dewr filwres lew:
Tan weinidogaeth oleu helaeth,
  Meister POWEL ddoniol ddrûd:
Y cafodd faeth ac adeuladaeth,
  Nes iddi ddod yn aeddfed ŷd.

16 Gair y bywyd oedd ei rheol,
Tra fi yma yn ein mysg;
Ei thraed a'i dwylaw oedd yn tystio,
Ei bod hi tan ryw uchel ddysg:
Carau'r brodyr a'r chwiorydd,
Yn dra ufudd tra fu byw;
Parcheu ei gweinidog hefyd,
Yn ddigêl fel Angel DUW.

17 Ce's dy gwmni yn dra chyson,
Lawer o siwrneion maith;
Tia'r PLOW a llefydd eraill,
Lle bae cynnull at y gwaith;
Ni cha i'th weled byth ond hynny,
Tra fwy fi yr ochor hyn;
Ond mi welaf foreu'n gwawrio,
Cawn ni gwrdd ar Seion fryn.

18 Yn Llanfaes cadd addas feddrod,
Gyda'i dau fabanod cu;
Ddygodd brenin dychryniadau,
I'r priddellau gyda hi:
Minnau sydd mewn galar heddyw,
Wedi colli'r fwyn ddifrâd;
Heb fawr o gysur yn fy ngofid,
Ond addewid fawr y Tâd.

19 Ar y seithfed dydd-ar-hugain,
O fis Mai mi gofia'r awr;
Yn bymtheg mlwydd-ar-hugain oedran,
Rhowd ei chorph mewn daear lawr:
Yn y flwyddyn o oed Iesu,
Deunaw cant ac ugain mlwydd
A phump hefyd gyda hynny,
Dyma'r cyfrif oll yn rhwydd.

20 Ffarwel Briod rhaid dy adael,
Heddyw'n dawel yn y pridd;
Hyd nes delo newydd alwad,
Yn yr adgyfodiad ddydd:
I'th godi fynu i blith y teulu,
I glodfori brenin Nén;
Yn yr helaeth ymerodraeth,
Diail-luniaeth byth. AMEN.

---

*Williams, Argraphydd, Aberhonddu.*